

Adolygiad Ysgolion Ardal Opsiynau ar gyfer Ysgol Gynradd Saltney Ferry Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc



Mae Cyngor Sir y Fflint yn gorfod edrych i weld a ydy pob un o'r ysgolion a'u hadnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau.

Mae Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn agored i ddisgyblion o 3-11 oed. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn 11 oed yn mynd ymlaen i astudio yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn agored i ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed. Mae'n gweithio gydag ysgolion lleol eraill fel rhan o gonsortiwim i ddarparu cyrsiau ar gyfer disgyblion dros 16 oed. Gan fod llawer o ysgolion yn cau eu Chweched Dosbarth, ni fydd Ysgol Dewi Sant yn gallu darparu digon o gyrsiau ar ei phen ei hun, felly fe all orfod cau'i Chweched Dosbarth yng Ngorffennaf 2016.

Yr Opsiynau

1. Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant o 11-18 i 11-16 o fis Medi 2016.

Newid ystod oedran uchaf yr ysgol o 18 i 16 mlwydd oed. Byddai'r Chweched Dosbarth yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn cau, a byddai cyrsiau i fyfyrwyr sy'n dymuno mynd ymlaen i gyrsiau ôl-16 ar gael mewn Canolfan ôl-16 newydd sbon gwerth £14.5m o'r radd flaenaf yng Nghei Connah o fis Medi 2016. Bydd cludiant am ddim i'r ddarpariaeth yma ar gael.

2. Dod â'r ddarpariaeth gynradd o Ysgol Gynradd Saltney Ferry a'r ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant at ei gilydd (eu cyfuno) o fis Medi 2015 a newid ystod oedran yr ysgol i 3-16 o fis Medi 2016.

Mae llawer o ysgolion yn dod yn ysgolion ystod oedran 3-16 yn awr. Mae hyn yn golygu na fydd raid i'r disgyblion drosglwyddo o un ysgol i'r llall, felly byddai'n haws symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Byddai ysgol ystod oedran 3-16 yn rhedeg dan un Pennaeth ac un Corff Llywodraethol a byddai iddi un ethos, un set o bolisiâu, fel bod adnoddau'n gallu cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Byddai hyn yn helpu Ysgol Gynradd Saltney Ferry i fod yn llwyddiannus ac yn helpu'r ddwy ysgol i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc. Hyd nes y gellir cael hyd i gyllid ar gyfer adeiladau newydd, byddai'r ysgolion yn gweithredu yn yr un ffordd ar safleoedd ar wahân ac yn yr adeiladau presennol. Byddai'r ddarpariaeth Ôl-16 ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant yr un fath ag yn Opsiwn 1.

I gael y llyfryn ymgynghori llawn, ac i lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein, ewch i: <http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwyd ichi ar y ddalen hon, a thrwy'r dogfennau eraill sydd ar gael ar wefan y Cyngor, dywedwch wrthym beth yw'ch barn am yr opsiynau sydd ar gael.

Nodwch: Ni fyddwch yn gallu cofnodi gwrthwynebiad ffurfiol (rheswm dros anghytuno) ar hyn o bryd. Os bydd y Cyngorwyr yn penderfynu bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffeirir, bydd 'hysbysiad statudol' yn cael ei gyhoeddi pryd y gall unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad yn ystod cyfnod o fis ar ôl ei gyhoeddi.

Pa mor gryf ydych yn cytuno ag Opsiwn 1 ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant?

- | | |
|-----------------------------|-----------------------|
| Cytuno'n Gryf | <input type="radio"/> |
| Tueddu i Gytuno | <input type="radio"/> |
| Nid yn Cytuno nac Anghytuno | <input type="radio"/> |
| Tueddu i anghytuno | <input type="radio"/> |
| Anghytuno'n gryf | <input type="radio"/> |

Pa mor gryf ydych yn cytuno ag Opsiwn 2 ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry?

- | | |
|-----------------------------|-----------------------|
| Cytuno'n Gryf | <input type="radio"/> |
| Tueddu i Gytuno | <input type="radio"/> |
| Nid yn Cytuno nac Anghytuno | <input type="radio"/> |
| Tueddu i anghytuno | <input type="radio"/> |
| Anghytuno'n gryf | <input type="radio"/> |

Dywedwch wrthym paham eich bod yn teimlo fel hyn os gwelwch yn dda. Rhowch ddisgrifiad o unrhyw opsiwn arall yr hoffech ei gynnig os gwelwch yn dda.

Enw'r Ysgol: _____

Pa un o'r rhain ydych? Ticiwch bob un sy'n berthnasol os gwelwch yn dda:

- | | | | | | |
|-----------------------------------|-----------------------|------------------------------------|-----------------------|------------------|-----------------------|
| Disgybl Ysgol Gynradd | <input type="radio"/> | Disgybl Ysgol Uwchradd Bl. 12 – 13 | <input type="radio"/> | Mentor Cyfoedion | <input type="radio"/> |
| Disgybl Ysgol Uwchradd Bl. 7 – 9 | <input type="radio"/> | Disgybl-Lywodraethwr Cyswllt | <input type="radio"/> | Swyddog | <input type="radio"/> |
| Disgybl Ysgol Uwchradd Bl 10 – 11 | <input type="radio"/> | Cyngorwr Ysgol | <input type="radio"/> | | |

Rhaid derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 4 Gorffennaf fan bellaf.

Diolch ichi am gymryd yr amser i lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon.